

Gadewch i ni drafod...

Rhoi aren fel rhoddwr byw a materion meddygol eraill

Mae rhoi aren yn fwy o risg i rai aelodau o'r boblogaeth nag eraill. Mae'r daflen ffeithiau hon yn cynnwys rhai canllawiau cyffredinol, ond cofiwch drafod â'ch cydlynnydd rhoddwr byw gan fod pob unigolyn yn cael ei asesu'n unigol. Cofiwch fod gennych hawl i ail farn gan ganolfan arall ac y gallwch ofyn am gael eich atgyfeirio ar gyfer hyn os ydych yn dymuno.

Pwysedd gwaed uchel

Mae llawer o roddwyr posibl sydd â phwysedd gwaed uchel yn gallu rhoi ond bod angen iddynt gael profion ychwanegol i wneud yn siŵr nad yw pwysedd gwaed uchel wedi effeithio arnynt mewn unrhyw ffordd, gan gynnwys edrych ar eu harenau, eu calon a'r pibelli gwaed yng nghefn y llygad. Os oes tystiolaeth o unrhyw niwed, byddant yn cael eu cynghori i beidio â bwrw ymlaen â'r broses. Weithiau bydd y tîm trawsblannu yn gofyn i'r rhoddwr gymryd meddyginiaeth cyn ac ar ôl rhoi aren, er mwyn cadw ei bwysedd gwaed ar lefel sy'n dderbyniol. Mae'n bwysig monitro eich pwysedd gwaed yn rheolaidd (o leiaf unwaith y flwyddyn) ar ôl rhoi, fel bod modd dechrau triniaeth yn gynnar os bydd eich tîm gofal yn gweld eich bod yn datblygu pwysedd gwaed uchel.



Diabetes

Bydd angen i roddwyr sydd mewn mwy o berygl o ddatblygu diabetes (hanes teuluol, diabetes pan yn feichiog, gordewdra neu rai mathau penodol o ethnigrwydd) gael mwy o brofion er mwyn asesu eu risg o ddatblygu diabetes. Os oes gan roddwr posibl diabetes, cynhelir asesiad trylwyr er mwyn rhagweld y risg o glefyd y galon neu'r arenau yn y dyfodol.

Gordewdra

Mae'r risg o gymhlethdodau llawfeddygol yn uwch ymysg rhoddwyr posibl sy'n ordew (llawer dros eu pwysau) ac mae gordewdra hefyd yn gallu effeithio ar sut mae'r aren sydd ar ôl yn gweithio yn y tymor hir. Mae angen mwy o brofion ar bobl sydd dros eu pwysau na'r rheini sydd o bwysau iach ac efallai y gofynnir iddynt gollu pwysau cyn rhoi a/neu efallai na fyddant yn cael eu derbyn i fod yn rhoddwyr.

Canser

Mae hanes o fathau penodol o ganser, fel canser yr ysgyfaint, canser datblygedig y fron a melanoma malaen neu ganser actif yn golygu na fydddech yn gallu bod yn rhoddwr aren byw. Yng nghyswllt mathau eraill o ganser, efallai y bydd yn bosibl i chi roi ar ôl

cyfnod o amser, gyda mwy o brofion ac asesiad manwl. Hefyd, efallai y bydd angen i'r sawl sy'n derbyn eich aren gael gwybod os oes unrhyw risgiau ychwanegol iddo ef/hi.

Oed

Nid oes cyfyngiad oedran uwch ar fod yn rhoddwr aren byw, ond, po hynaf yr ydym, po fwyaf o 'draul' sy'n debygol o fod. Efallai y bydd angen i roddwyr hŷn gael mwy o brofion i weld sut mae'r galon, yr ysgyfaint a'r arenau'n gweithio a rhaid iddynt gael eu hasesu'n ofalus i sicrhau y bydd yr aren a gaiff ei thrawsblannu yn gweithio'n ddigon effeithiol i'r sawl sy'n ei derbyn yn ogystal â bod yn ddiogel i'r rhoddwr.

Er mai 18 mlwydd oed yw'r oedran cyfreithiol ar gyfer rhoi (16 yn yr Alban), mae'n bwysig ystyried rhodd gan bobl ifanc yn ofalus iawn oherwydd bod ganddynt fwy o flynyddoedd o fywyd o'u blaenau. Rhaid hefyd ystyried yn ofalus iawn y perygl o ddatblygu clefydau a allai effeithio ar yr arenau yn hwyrach ymlaen yn eu bywydau. Cyn belled ag y bo pobl ifanc yn cael eu hasesu'n ofalus a'u bod yn deall y risg bersonol iddyn nhw yn llawn, ni ddylai oed yn unig eu hatal rhag cael eu hystyried i fod yn rhoddwyr.

NODIADAU

Cyf: 'Canllawiau Cymdeithas Trawsblaniadau Prydain/Y Gymdeithas Arenau ar Drawsblannu Arenau gan Roddwyr Byw 2018' <https://bts.org.uk/guidelines-standards/>

I ddysgu mwy am roi aren fel rhoddwr byw,
ewch i organdonation.nhs.uk/livingdonation
ffoniwch 0300 123 23 23 neu
e-bostiwch enquiries@nhsbt.nhs.uk



Yes I donate
ORGAN DONATION